

SMR 7: Adnabod a Chofrestru Gwartheg



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2014

www.cymru.gov.uk

Amcan y gofynion hyn yw cynnal system ar gyfer adnabod a chofrestru gwartheg ar gyfer eu holrhain yn rhwydd, yn enwedig pan fydd clefyd yn taro. Rhaid i bawb sy'n cadw gwartheg, hyd yn oed gwartheg anwes, gadw at y gofynion hyn.

At bwrpas trawsgydymffurfio, does dim angen ichi wneud mwy na'r hyn y mae'r gyfraith eisoes yn gofyn ichi ei wneud.

Y prif ofynion

Tagiau Clust

Rhaid tagio gwartheg fel a ganlyn:

- Â thagiau sydd wedi'u cymeradwyo gan Defra i roi rhif adnabod unigryw i bob llo sy'n cael ei eni ar y daliad. Bydd yn cynnwys nod 'UK' y fuches a rhif dilyniannol.
- Trwy roi dau dag ar bob llo sy'n cael ei eni ar y daliad cyn pen 20 diwrnod neu cyn i'r llo adael y daliad, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.
- Rhoi'r tag cyntaf ar loi a aned mewn buches odro cyn pen 36 awr a'r ail cyn pen 20 diwrnod.
- Rhoi tag yn lle tagiau clust sy'n cael eu colli neu sy'n amhosib eu darllen cyn pen 28 diwrnod ar ôl sylwi ar y gollod, neu cyn i'r anifail adael y daliad.
- Peidiwch â newid, dileu nag amharu ar y tagiau adnabod.

Pasbortau gwartheg

- Gofynnwch i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) am basbort gwartheg cyn pen 27 diwrnod ar ôl geni'r llo fan hwyraf neu 7 niwrnod ar gyfer beisonau.
- Cadwch y pasbort mewn lle diogel er mwyn ichi allu dangos pasbort dilys gyda'ch llofnod arno ar gyfer yr holl wartheg sydd gennych o dan eich gofal.

- Gofalwch fod pasbort yn mynd gyda'ch gwartheg pan fyddwch yn eu symud.
- Rhowch wybod i'r BCMS am symudiadau'ch gwartheg i ac o'ch daliad o fewn 3 diwrnod ar ôl y symudiad.
- Rhaid rhoi gwybod i'r BCMS am farwolaeth anifail ar eich daliad ac anfon ei basbort atynt, cyn pen 7 niwrnod.
- Peidiwch â newid na difetha pasbort.

Cofrestr y fferm

- Rhaid cadw cofrestr gyfoes o'r fuches ar y fferm sy'n dangos rhif y tag clust, rhif adnabod y fam, dyddiad geni, brîd a rhyw pob anifail.
- Dylai'r gofrestr gynnwys dyddiad symud yr anifail i'r fferm neu o'r fferm gyda chyfeiriad y lle cafodd ei anfon iddo/y daeth ohono. Dylai gynnwys dyddiad pob marwolaeth a lle cafodd y carcass ei anfon iddo.
- Rhaid llenwi'r gofrestr cyn pen 36 awr ar ôl symudiad, cyn pen 7 niwrnod ar ôl marwolaeth a chyn pen 30 diwrnod ar ôl geni llo (7 niwrnod yn achos llo o fuches odro).
- Cadwch gofrestr y fuches am 10 mlynedd ar ôl y cofnod diwethaf fel y gall Llywodraeth Cymru neu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ei gweld o ofyn am gael gwneud.

Archwiliadau maes

- I ofalu bod eich holl wartheg yn cael eu tagio yn unol â'r gofyn a'ch bod, o fewn y terfyn amser, yn rhoi tagiau yn lle'r rhai sy'n cael eu colli.
- I ofalu bod pob pasbort yn cyfateb i anifail penodol a bod gan bob anifail basbort (neu ddogfen gofrestru CPP35).
- I ofalu bod y manylion printiedig ar y pasbort yn cyfateb i gofnodion y fferm.
- I weld cronfa ddata'r System Olrhain Gwartheg (SMR) i wneud yn siwr bod yr holl wartheg o dan eich gofal wedi'u rhestru'n gywir a rhoi gwybod am gamgymeriadau.
- I ofalu bod cofnodion y fferm yn gyflawn ac yn gyfoes ac yn cyfateb i gofnodion y CTS.

I helpu â'r archwiliadau maes:

- Gofalwch fod gennych system trin gwartheg sy'n gweithio'n dda ac sy'n gadael y gwartheg drwyddi'n effeithiol.
- Gofalwch eich bod yn trefnu bod gennych ddigon o weithwyr a lle diogel i drin y gwartheg.

Arfer da

- Fel rhan o'r archwiliadau arferol, rhaid gofalu fod y ddau dag clust yn sownd ac yn ddarllenadwy. Rhaid rhoi tag newydd yn lle tag sydd wedi'i golli neu sydd wedi'i ddifrodi o fewn 28 diwrnod ar ôl sylwi fod rhywbeth yn bod.
- Defnyddiwch CTS ar-lein i gofrestru genedigaethau a marwolaethau ac i gofnodi symudiadau. Yn ogystal â bod yn gynt, mae'n ffeindio bylchau a gwallau yn y cofnodion ichi allu eu cywiro a thrwy hynny, osgoi cosbau trawsgydymffurfio.
- Cymharwch restr y CTS o'r gwartheg sydd ar eich daliad â rhestr y gwartheg sydd wedi cael prawf TB (neu sydd wedi'u crynhoi at ddibenion eraill).

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)
Awdurdodau Lleol (Yr adran Safonau Masnach fel arfer)
Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn